

# Maniffesto Garddwriaeth Amgylcheddol Cymru:

Blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru yn y Dyfodol gan Gymdeithas y Crefftau Garddwriaethol (HTA)

Chwefror 2026



# Beth yw garddwriaeth amgylcheddol?

Mae Cymdeithas y Crefftau Garddwriaethol (HTA) yn cynrychioli 44 o fusnesau sy'n aelodau ar draws 70 o safleoedd yng Nghymru, a thua 1,400 o fusnesau ledled y Deyrnas Unedig.

Ni yw'r diwydiant gwyrdd gwreiddiol ac mae'r gerddi, y mannau gwyrdd a'r planhigion rydym yn eu tyfu, eu meithrin a'u cynnal yn sail i iechyd a chydnerthedd cymunedau Cymru, yr economi a'r amgylchedd. **Yn 2023, cefnogodd y diwydiant garddwriaeth amgylcheddol gyfraniadau o £1.8bn at GDP yng Nghymru (ac eithrio twristiaeth gerddi), gan gefnogi 37,000 o swyddi[1]. Mae gan hyn y potensial i dyfu i £2.1bn erbyn 2030.**

Mae'r ddogfen hon yn adeiladu ar Strategaeth Twf Cymru yr HTA (hta.org.uk/policy/wales), a'r gwaith rydym wedi'i wneud yn flaenorol ar y cyd â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill.

## Gofynion allweddol yr HTA i Lywodraeth Cymru

- **Cydnabod gwerth gerddi a mannau gwyrdd drwy ddatblygu Strategaeth Garddwriaeth.**
- **Sefydlu Grŵp Garddwriaeth Amgylcheddol a Mannau Gwyrdd i wella gwaith trawsadrannol.**
- **Neilltuo cyllid ar gyfer mannau gwyrdd i ddiogelu rhag diffygion neu doriadau yn y gyllideb wrth gyflawni prosiectau.**
- **Gwella amseroedd ymateb yr heddlu mewn lleoliadau gwledig a symleiddio'r prosesau adrodd ar gyfer busnesau.**
- **Codi'r trothwy ar gyfer y lluosydd ardrethi busnes uwch a'i gymhwyso i safleoedd sydd â Gwerth Ardrethol o dros £500,000.**
- **Gweithredu casgliadau ymyl y ffordd cyson ledled Cymru, a chynnwys potiau planhigion plastig nad ydynt yn ddu y gellir eu hailgylchu.**
- **Gwella cymorth ariannol i fusnesau garddwriaeth amgylcheddol.**
- **Datgloi rhwystrau a sicrhau cysondeb mewn ceisiadau cynllunio ar gyfer busnesau garddwriaeth amgylcheddol.**
- **Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer cynhyrchu planhigion a choed addurnol a chynhyrchiol i gefnogi'r gwaith o gynhyrchu planhigion yn y DU.**
- **Cyflwyno Gofyniad Statudol i 'Dyfu Planhigion' yn y Cwricwlwm i Gymru.**
- **Adeiladu ar Gynllun Gwarantu Swyddi Llywodraeth y DU a mynd ymhellach gyda chymorth cyflogaeth i fusnesau Cymru.**

## Yn gyffredinol, mae'r sector hwn yn cwmpasu'r gweithgareddau penodol canlynol:


Cyflenwi nwyddau gardd


Coedyddiaeth


Gwasanaethau tirweddu


Twristiaeth gerddi


Cynhyrchu planhigion addurnol


Cyfanwerthu cynnyrch gardd a blodau


Gwerthu cynnyrch gardd, planhigion a blodau tusw





# Meysydd Blaenoriaeth ar gyfer Gweithredu

## Amddiffyn a Chefnogi Cymunedau

Mae garddwriaeth amgylcheddol yn gwarchod ac yn cefnogi cymunedau drwy ei chyfraniadau economaidd, amgylcheddol, iechyd a lles. Rydym yn croesawu uchelgais Llywodraeth Cymru i ddod â blaenoriaethau polisi ar draws y llywodraeth at ei gilydd i sicrhau manteision hirdymor, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae sefydliadau fel Cadwch Gymru'n Daclus, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, a'r Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn enghreifftiau rhagorol o sut gall pobl leol sy'n gweithio gyda'i gilydd ddarparu llesiant unigol a chyfunol a gwella'r amgylchedd o'u cwmpas. Gyda bron i 70% o oedolion Cymru wedi ymweld â chanolfan arddio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf[2], mae'r busnesau hyn yn gweithredu fel canolfannau cymunedol hanfodol, ac yn creu cyfleoedd i gymdeithasu, addysgu a rhannu arbenigedd garddwriaethol. Ond mae angen y dirwedd polisi briodol arnom hefyd i gefnogi'r sector a'i helpu i dyfu, gan sicrhau canlyniadau mwy cadarnhaol i fwy o gymunedau ledled Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- **Cydnabod a chynyddu gwerth gerddi a mannau gwyrdd ar draws meysydd polisi allweddol drwy ddatblygu a gweithredu Strategaeth Garddwriaeth gyfannol a chryfhau gwaith trawsadrannol drwy sefydlu Grŵp Garddwriaeth Amgylcheddol a Mannau Gwyrdd.** Dylai'r grŵp gynnull cynrychiolwyr o'r diwydiant, y trydydd sector, asiantaethau amgylcheddol, awdurdodau lleol a swyddogion y llywodraeth o bortffolios perthnasol i sicrhau bod mynediad at fannau gwyrdd a seilwaith gwyrdd, a'r gwaith o'u cynnal, yn cael ei ystyried ar draws y gwaith o lunio a chyflawni polisïau. Gellid sefydlu'r grŵp hwn drwy fersiwn ehangach o Grŵp Cynghrair Garddwriaeth Cymru Cyswllt Ffermio, a gallai oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Garddwriaeth Amgylcheddol a Mannau Gwyrdd. Gallai ffrydiau gwaith gynnwys archwilio'r potensial o sefydlu diogelwch cyfreithiol ar gyfer mannau gwyrdd, a gofynion safonau cynnal a chadw ar eu cyfer. Byddai hyn yn sicrhau bod seilwaith gwyrdd hanfodol yn cael ei ddiogelu a'i gynnal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

*Mae 84% o oedolion Cymru yn dweud ei bod yn bwysig eu bod yn gallu cael mynediad at erddi a mannau gwyrdd cyhoeddus[2]*



- **Neilltuo cyllid ar gyfer plannu gwyrddni a mannau gwyrdd, er mwyn diogelu rhag diffygion posibl neu doriadau cyllidebol o ran cyflawni prosiectau, gan sicrhau bod tendrau a chontractau'n cael eu gwireddu'n llawn a bod ymrwymiadau i ffynonellau yng Nghymru a'r DU yn cael eu cyflawni.** Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o werth gerddi a mannau gwyrdd ar gyfer cefnogi cymunedau iach yng nghynllun Cyflawni Cymru Iach 2025 i 2027, ond rhaid i'r gwaith o ddarparu a chynnal a chadw'r mannau hyn gael ei flaenoriaethu gan y llywodraeth ganolog ac awdurdodau lleol, a'i gefnogi gyda chamau gweithredu pendant i sicrhau a chynnal cyllid. Mae 81% o oedolion Cymru yn dweud bod gerddi a mannau gwyrdd cyhoeddus o fudd i'w hiechyd corfforol, ac mae 86% yn nodi'r budd i'w hiechyd meddwl[2].
- **Gwella amseroedd ymateb yr heddlu, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig, a symleiddio'r prosesau adrodd ar gyfer busnesau.** Mae dros 70% o ganolfannau garddio yn dweud bod troseddu'n broblem, ac mae llawer wedi buddsoddi'n sylweddol mewn mesurau atal lladrad. Mae amseroedd ymateb a'r broses adrodd am droseddau yn ei gwneud yn anodd i fusnesau ymgysylltu, a gellid ei gwneud yn fwy effeithlon, yn enwedig ar gyfer olrhain gweithgarwch troseddol cyfundrefnol sy'n aml yn symud ar draws ffiniau awdurdodaethol. Gallai Cymru arwain y ffordd o ran cydlynu ymdrechion ar draws heddluoedd, a gyda heddluoedd ledled gweddill y DU, drwy fabwysiadu un ap ar gyfer rhoi gwybod am droseddau a safoni prosesau adrodd. Byddai hyder busnesau o ran rhoi gwybod am droseddau yn cael ei wella ymhellach pe bai canllawiau clir gan heddluoedd ar ba wybodaeth y mae'n rhaid i fanwerthwyr ei darparu er mwyn adnabod y troseddwyr yn llwyddiannus. Ar hyn o bryd, mae busnesau'n treulio llawer o amser yn casglu tystiolaeth, dim ond i gael gwybod nad yw'n ddigon i ymchwiliad gael ei gynnal.

## Creu'r amodau ar gyfer twf

Mae 98% o'n haelodau yng Nghymru yn fusnesau bach a chanolig (BBaChau), llawer ohonynt yn fusnesau teuluol, ond mae costau cynyddol a baich rheoleiddio yn llesteirio eu gallu i fuddsoddi a thyfu. Mae llawer o fusnesau'n adrodd ei bod 'cyn galeted ag erioed' ac yn 'storm berffaith' o ran costau, sy'n lleihau eu gallu i fuddsoddi, cyflogi staff, ac arloesi. Mae'r holl arbedion cost ac effeithlonrwydd wedi cael eu hysbyddu. Gallai Llywodraeth Cymru gymryd rhai camau tymor canolig i helpu i leddfu pwysau costau ar BBaCHau yn y sector. Mae'r HTA yn gofyn i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- **Darparu system ardrethi busnes ledled Cymru nad yw'n tanseilio cystadleurwydd ar draws y pedair gwlad, drwy godi'r trothwy i'r lluosydd uwch i adlewyrchu Lloegr a bod yn berthnasol i safleoedd sydd â Gwerth Ardrethol o dros £500,000.** Mae'n rhaid parhau i flaenoriaethu'r gwaith o ailwampio'r system ardrethi busnes, er mwyn sicrhau prisiadau teg a chywir o'r cychwyn cyntaf. Rhaid sicrhau bod canolfannau garddio yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer y rhyddhad ardrethi manwerthu, lletygarwch a hamdden. Mae Consortiwm Manwerthu Cymru yn nodi mai manwerthwyr Cymru sy'n wynebu'r lluosydd uchaf ym Mhrydain Fawr, a gyda chynlluniau i gyflwyno lluosydd uwch ar gyfer safleoedd sydd â gwerth ardrethol o dros £100,000, mae'n debygol y bydd biliau canolfannau garddio sy'n aelodau o'r HTA yn cynyddu hyd yn oed yn fwy o dan y cynigion presennol.
- **Gweithredu casgliadau ymyl y ffordd cyson ar draws pob Awdurdod Lleol yng Nghymru, yn debyg i fenter Simpler Recycling yn Lloegr ar gyfer aelwydydd, sy'n cynnwys potiau planhigion plastig nad ydynt yn ddu y gellir eu hailgylchu, i sicrhau nad yw canolfannau garddio'n wynebu costau ychwanegol a gweinyddu gwaredu gwastraff cartrefi.** Bydd hyn yn rhyddhau cyllid y gellir ei fuddsoddi mewn rhannau eraill o'r busnes, yn cefnogi'r gwaith o gyflawni uchelgeisiau economi gylchol y llywodraeth ac yn cryfhau safle Cymru fel arweinydd byd-eang ym maes ailgylchu gwastraff cartrefi. Byddai alinio agosach â Lloegr ar hyn yn mynd i'r afael â'r beichiau ychwanegol y mae busnesau yn y sector yn eu hwynebu, ar yr un pryd â sicrhau chwarae teg â busnesau dros y ffin.



## Hybu Cynhyrchiant, Cyflogaeth a Buddsoddiad

Mae'r ddadl ynghylch yr economi a'r amgylchedd yn cael ei pholareiddio fwyfwy, gydag un yn cael ei weld yn aml yn cael blaenoriaeth dros y llall. Ni ddylid ystyried bod cyflawni twf economaidd a chynyddu cynhyrchiant, ar yr un pryd â mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chyrraedd sero net, yn annibynnol ar ei gilydd. Mae gan fusnesau rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu i gyflawni'r ddau, ond mae angen y dirwedd polisi briodol arnynt i'w galluogi i wneud y buddsoddiadau a'r addasiadau angenrheidiol i gyfrannu at gyflawni sero net a chynyddu cydnerthedd. Mae sicrhau nad yw BBaChau yn cael eu gadael ar ôl wrth symud i sero net a chynyddu'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial (AI) ac awtomeiddio yn hanfodol er mwyn sicrhau twf cynaliadwy a swyddi gwell i gymunedau ledled Cymru. Er bod busnesau garddwriaethol yn barod i fuddsoddi, yn aml ni allant godi'r cyllid sydd ei angen i fuddsoddi'n ddigon cyflym, yn enwedig o ystyried anwadalrwydd y galw sy'n gysylltiedig â'r tywydd, sy'n golygu bod busnesau'n wynebu amrywiadau tymor byr mewn refeniw.

Gellid gwella cynhyrchiant, cyflogaeth a buddsoddiad ymhellach pe bai Llywodraeth Cymru yn:

- **Gweithio gyda'r sector i wella cymorth ariannol i BBaCHau ym maes garddwriaeth amgylcheddol, gan ganolbwyntio ar gydnerthedd dŵr, tyfu heb fawn, effeithlonrwydd ynni, awtomeiddio a thechnoleg.** Gweithio gyda Whitehall i greu pot cyllid llywodraeth ganolog i gefnogi cynhyrchiant a chynaliadwyedd, gan sicrhau bod manwerthwyr canolfannau garddio (sydd yn aml wedi'u heithrio o grantiau garddwriaeth presennol) yn cael eu cynnwys yn benodol. Byddai mwy o werthfawrogiad o'r gwahanol ofynion ar gyfer garddwriaeth fwytadwy, garddwriaeth amgylcheddol, a ffermio, a adlewyrchir yng ngeiriad cyfleoedd a chanllawiau grant, hefyd yn gwella eglurder i fusnesau. Byddai symleiddio prosesau ymgeisio, cynyddu amseroedd arwain, gwella cyfathrebu ynghylch argaeledd grantiau, a sicrhau bod modd rheoli'r gofynion buddsoddi sylfaenol yn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar grantiau, yn gwella cystadleurwydd, ac yn sicrhau enillion amgylcheddol ac economaidd mewn cyfnod byrrach.
- **Datgloi rhwystrau yn y system gynllunio i sicrhau cysondeb wrth drin ceisiadau cynllunio ar gyfer busnesau garddwriaeth amgylcheddol sy'n darparu twf gwyrdd.** Rydym yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn ar hyn o bryd, ond mae'n hanfodol bod cynhyrchiant garddwriaeth masnachol a manwerthu mewn canolfannau garddio hefyd yn cael eu cynrychioli. Byddem yn croesawu system fwy ystwyth ac ymatebol sy'n caniatáu i safleoedd gael eu hôl-osod, yn enwedig i wneud adeiladau'n fwy ynni-effeithlon. Byddai adolygu adnoddau swyddogion cynllunio yn helpu i leihau costau ac oedi yn y system. Byddai hyn yn creu gofod mwy cynaliadwy i gynnal gweithrediadau busnes - gan arwain at well adenillion amgylcheddol ac economaidd ar fuddsoddiad.
- **Datblygu cynllun gweithredu ar gyfer cynhyrchu planhigion a choed addurnol a chynhyrchiol, gan weithio ar draws y gwledydd ac ar draws sectorau i nodi gweithgareddau a fydd yn cefnogi cynhyrchu planhigion yn y DU.** Dylai hyn gynnwys asesu'r cyflenwad o ddeunyddiau crai, bylchau mewn sgiliau, a chymorth grant ar gyfer cynhyrchu nad yw'n goedwigaeth. Gallai Llywodraeth Cymru arwain y ffordd o ran modelu'r galw am goed, a chyhoeddi contractau aml-flwyddyn i feithrinfeydd i gyrraedd targedau plannu coed brodorol, gyda chefnogaeth grantiau'r llywodraeth. Gellid cynnal astudiaeth ddichonoldeb hefyd i dynnu sylw at ba blanhigion a choed sy'n cael eu mewnforio y gellid eu tyfu yn y DU.
- **Cyflwyno Gofyniad Statudol i 'Dyfu Planhigion' yn y Cwricwlwm i Gymru.** Mae garddwriaeth ac ymgysylltu â natur yn helpu i feithrin hyder a chreadigrwydd, meithrin ymwybyddiaeth o ddaearyddiaeth a'r amgylchedd ehangach, ac yn addysgu arferion iach a boddhaus i bobl ifanc wrth iddynt i dyfu i fod yn oedolion. Mae'r diwydiant yn arwain y gwaith o ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o arddwyr, er enghraifft, mae aelodau'r HTA yng nghanolfan arddio'r Old Railway Line yn cefnogi prosiectau garddio ysgolion lleol drwy roi planhigion, hadau, compost ac offer iddynt, a thrwy gynnig cyngor ymarferol i helpu ysgolion i sefydlu a chynnal eu gerddi eu hunain. Mae llawer o waith yn mynd rhagddo ledled Cymru i sbarduno garddio mewn ysgolion; fodd bynnag, rhaid i hyn gael ei oruchwylio'n ganolog a'i wreiddio yn y cwricwlwm, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i dyfu planhigyn ac elwa o'r profiadau hyn. Mae ein sector mewn sefyllfa ddelfrydol i gefnogi hyn.
- **Adeiladu ar Gynllun Gwarantu Swyddi Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a chynnal asesiad effaith o'r Cynllun Kickstart i nodi faint o bobl a leolwyd (ac a arhosodd) mewn gwaith am gyfnod o 6 mis o ganlyniad i'r Cynllun.** Cymru sydd â'r gyfradd ddiweithdra uchaf o bedair gwlad y DU, ac mae angen staff ar fusnesau Cymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn fwy beiddgar a mynd ymhellach. Mae gan arddwriaeth amgylcheddol amrywiaeth enfawr o rolau ar gael ar gyfer gwahanol oedrannau, galluoedd ac anghenion cyflogaeth. Fodd bynnag, mae costau cyflogaeth cynyddol, gan gynnwys codiadau cyflog a newidiadau i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr, wedi ei gwneud yn anoddach i fusnesau fuddsoddi mewn staff newydd. Rhoddodd y Cynllun Kickstart gyfle i gyflogwyr gyflogi staff na fyddent o bosibl wedi bodloni meini prawf cyflogaeth fel arall, gyda llawer o fusnesau'n dweud bod yr aelodau hyn o staff wedi aros am flynyddoedd ar ôl i'r Cynllun ddod i ben.

1. The Economic Impact of Environmental Horticulture and Landscaping in the UK (Adroddiad Oxford Economics i'r Grŵp Garddwriaeth Amgylcheddol, 2024)
2. Arolwg annibynnol o 4,031 o oedolion 16 oed a hŷn yn y DU (Rhagfyr 2024)

**Rhagor o wybodaeth:** hta.org.uk/policy

**Tîm Polisi'r HTA** policy@hta.org.uk
**Swyddfa Cyfryngau'r HTA** media.office@hta.org.uk
**Strategaeth Twf Cymru'r HTA** hta.org.uk/policy/wales
**Adroddiad Strong Roots yr HTA** hta.org.uk/strong-roots